

Annwyl Riant / Gofalwr,

Rydym yn sylweddoli pa mor anodd y bu i chi fel rhieni ac i'r dysgwyr sydd wedi bod i ffwrdd o'r ysgol ers canol mis Rhagfyr, a hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus dros y cyfnod hwn.

Bydd dysgu wyneb yn wyneb yn aildechrau ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn Sir Ddinbych o ddydd Llun 15fed Mawrth 2021. Mae hyn yn golygu y gall plant ym Mlynnyddoedd 3-6 ddychwelyd i'r ysgol ar y dyddiad hwn. Yr wyf yn siŵr y bydd pob ysgol yn rhannu eu manylion gweithredol â chi fel rhieni a gofalwyr.

Bydd dyfeisiau Profion Llif Unffordd (PLIU) ar gael i'r holl staff sy'n gweithio mewn ysgolion. Mae hyn yn eu galluogi i gynnal prawf coronafeirws gartref ddwywaith yr wythnos.

Os bydd aelod o staff yn profi'n gadarnhaol, bydd angen i'r grŵp cyswllt cyfan hunanynysu. Mae hyn yn golygu y gellid cysylltu â chi, fel rhieni / gofalwyr, ar nos Sul neu nos Fercher gan eich cynghori bod yn rhaid i'ch plentyn hunanynysu ar unwaith. Yn y cyfamser, bydd yr aelod o staff yn cael ei brofi eto gan ddefnyddio prawf labordy (prawf PCR). Os yw'r ail prawf hwn hefyd yn gadarnhaol, bydd angen i'r hunanynysu barhau fel y cynghorir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Os yw'r prawf PCR yn negyddol, bydd yr ysgol yn cysylltu â chi i drefnu i'r plant ddychwelyd i'r ysgol y diwrnod wedyn.

Byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion i sicrhau y gallwn rannu gwybodaeth a chi cyn gynted â phosibl yn yr achosion hynny o prawf cadarnhaol. Mae'r trefniadau hyn yno i roi sicrwydd ychwanegol i chi o ran diogelwch eich plentyn.

Dear Parent / Carer,

We realise how difficult it has been for both you as parents and for the learners to have been away from school since mid-December, and I would like to thank you for your continued support over this time.

Face to face learning will resume for Key Stage 2 pupils in Denbighshire from Monday 15<sup>th</sup> March 2021. This means that children in Years 3-6 can return to school on this date. I am sure that each school will share their operational details with you as parents and carers.

All staff working in schools will have access to Lateral Flow Devices (LFDs). This enables them to undertake a test for coronavirus at home twice a week.

If a member of staff tests positive, the whole of the contact group will need to self-isolate. This means that you, as parents / carers, could be contacted on a Sunday or Wednesday evening advising you that your child must self-isolate immediately. In the meantime, the staff member will be tested again using a laboratory test (a PCR test). If this second test is also positive, the self-isolation will need to continue as advised by Public Health Wales. If the PCR test is negative, the school will contact you to arrange for the children to return to school the next day.

We will continue to work with schools to ensure that in those instances of a positive test we will get a message to you as soon as possible. These arrangements are to provide additional assurances in terms of the safety of your child.

Bydd prydau ysgol am ddim a chludeant ysgol ar gael i bob disgybl cymwys cyn gynted ag y bydd ysgolion yn ailagor a bydd taliadau prydau ysgol am ddim yn parhau yn ystod gwyliau'r Pasg i bob teulu cymwys.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro lefelau COVID-19, a bydd Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gig Cymru a Profi, Olrhain a diogelu i adolygu achosion. Gallai hyn newid ein cynlluniau ar gyfer dysgwyr sy'n dychwelyd i'r ysgol, ond cewch wybod os bydd hyn yn digwydd.

Er mwyn cadw dysgu wyneb yn wyneb ar agor a chymunedau'n ddiogel mae angen eich help arnom. Os gwelwch yn dda:

- Ceisiwch sicrhau nad yw eich plant yn cymysgu'n gymdeithasol y tu allan i'r ysgol, hyd yn oed os yw'r plant eraill o fewn yr un swigen yn yr ysgol;
- Wrth gasglu plant o'r ysgol, gwisgwch orchudd wyneb a chadw pellter cymdeithasol;
- Peidiwch ag anfon plant i'r ysgol os ydynt yn sâl, os oes ganddynt symptomau o COVID-19 neu wedi profi'n positif.

Unwaith eto, diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus ac arhoswch yn ddiogel.

Yn gywir,

*G. W. Davies*

**Pennaeth Addysg Dros Dro**

**Cyngor Sir Ddinbych**

Free school meals and school transport will be available for all eligible pupils as soon as schools reopen and free school meal payments will continue during the Easter holiday for all eligible families.

The Welsh Government will continue to monitor levels of COVID-19, and Denbighshire will work closely with Public Health Wales and NHS Wales Test, Trace, Protect to review cases. This could change our plans for learners returning to school, but you will be informed if this happens.

To keep face to face learning open and communities safe we need your help. Please:

- Try to ensure that your children do not mix socially outside of school, even if the other children are within the school bubble;
- When collecting children from school, please wear a face covering and maintain social distancing;
- Do not send children into school if they are unwell, have symptoms of or have tested positive for COVID-19.

Once again many thanks for your continued support and please stay safe.

Yours sincerely,

*G. W. Davies*

**Interim Head of Education**

**Denbighshire County Council**